**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 4 Mawrth 2020**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghorwyr Barry Mellor, Arwel Roberts, Rhys Thomas a Huw Williams |
| **2** | DATGANIADAU O FUDDIANT | Dim. |
| **3** | MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD | Dim. |
| **4** | COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2019 fel cofnod cywir.* |
| **5** | ADNEWYDDU CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 541292 | ***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cais Ymgeisydd Rhif 541292 i adnewyddu trwydded i yrru cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat.* |
| **6** | ADNEWYDDU CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 543310 | ***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cais Ymgeisydd Rhif 543310 i adnewyddu trwydded i yrru cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat gan roi rhybudd ffurfiol iddo ynghylch ei ymddygiad.* |
| **7** | POLISI/AMODAU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT | ***PENDERFYNWYD –***<br><br>*(a) Awdurdodi swyddogion i ymgynghori ynghylch y diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat a'r Amodau, fel y manylir arnynt yn yr adroddiad, yn amodol ar fân newidiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor, ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiad, byddant yn dod i rym 1 Mehefin 2020,*<br><br>*(b) Os derbynnir unrhyw wrthwynebiad, bydd y Pwyllgor Trwyddedu yn ystyried y* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *gwrthwynebiadau hynny yn ystod y cyfarfod nesaf ym mis Mehefin 2020 gyda'r bwriad o weithredu (gyda neu heb addasiad) dim hwyrach nag 1 Gorffennaf 2020.* |
| **8** | Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AR WAITH YR ADAIN DRWYDDEDU YN 2019 | ***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar sylwadau aelodau, nodi cynnwys yr adroddiad.* |
| **9** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2020/21 | ***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel y mae yn atodiad i'r adroddiad.* |